

Diweddariad Cynnydd Cynllunio
Rhyddhau Cleifion – Bwrdd Iechyd
Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Canfyddiadau allweddol	4
Argymhellion	5

Adroddiad manwl

Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol	7
---	---

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio	12
Atodiad 2 – crynodeb o'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion yn 2017	14
Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr	17

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Yn 2017, adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol gynllunio rhyddhau ar draws pob bwrdd ieuchyd yng Nghymru. Roedd y gwaith hwnnw'n canolbwyntio ar gynllunio strategol, trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynllunio rhyddhau, a chatau gweithredu sy'n cael eu cymryd i reoli cynllunio rhyddhau a sicrhau gwelliannau.
- 2 Canfu ein hadroddiad yn 2017 ar gynllunio rhyddhau cleifion ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) fod **"rhywfaint o welliant mewn mesurau perfformiad allweddol ond bydd yn cymryd amser cyn i fentrau i wella cynllunio rhyddhau cleifion a llif cleifion ddod i rym yn llawn"**. Gwnaethom sawl argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â nhw.
- 3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn ymgymryd â rhaglen waith ledled Cymru sydd wedi archwilio materion system gyfan sy'n effeithio ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o drefniadau byrddau ieuchyd ac awdurdodau lleol i sicrhau rhyddhau cleifion allan o'r ysbyty yn amserol. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn yn rhanbarth Gorllewin Cymru wedi'u nodi mewn adroddiad ar wahân i'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid awdurdodau lleol. Bydd yr adroddiad rhanbarthol ar gael ar ein gwefan ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd Iechyd a phwyllgorau awdurdodau lleol priodol.
- 4 Fel rhan o'n hadolygiad rhanbarthol, rydym hefyd wedi ceisio asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a nodir yn ein hadroddiad cynllunio ar gyfer rhyddhau yn 2017. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau mewn perthynas â chynnydd yn erbyn yr argymhellion. Mae'r dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'i nodi yn **Atodiad 1**.
- 5 Nod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar ofal brys ac argyfwng yw helpu i gyflawni ei ddyletswydd statudol i fod yn fodlon bod gan gyrff y GIG ac awdurdodau lleol drefniadau priodol ar waith i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau.
- 6 Er mwyn cefnogi ein gwaith blaenorol ar gynllunio rhyddhau, gwnaethom gynhyrchu 'Beth yw'r oedi? Rhyddhau cleifion yng Nghymru' sy'n nodi materion pwysig y dylai aelodau'r bwrdd gael eu gweld wrth geisio sicrwydd bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn ffyrdd diogel ac amserol. Mae llawer o'r materion a nodwyd yn dal i fod yn berthnasol a dylid eu hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r adroddiad hwn.

Canfyddiadau allweddol

- 7 Dangosodd data o fis Ebrill 2025 ar draws prif safleoedd ysbytai'r Bwrdd Iechyd fod 222 o gleifion wedi eu rhyddhau ar ôl oedi o dros 48. Roedd tua 26% o'r achosion o oedi hyn yn ymwneud â materion cynllunio rhyddhau o fewn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cwblhau asesiadau clinigol.

- 8 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd araf wrth fynd i'r afael â'r argymhellion blaenorol a wnaethom yn 2017 i helpu i wella cynllunio rhyddhau. Gwnaeth ein hadroddiad yn 2017 chwe argymhelliad a oedd yn nodi 12 o gamau gweithredu penodol ar gyfer y Bwrdd lechyd. Gan nodi bod y Bwrdd lechyd wedi derbyn yr argymhellion hyn, canfu ein gwaith dilynol y canlynol:
- ni wnaed unrhyw gynnydd yn erbyn pedwar o'r camau gweithredu;
 - mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo yn erbyn pedwar o'r camau gweithredu;
 - mae un o'r camau gweithredu wedi'i ddisodli gan ddatblygiadau eraill;
 - mae tri o'r camau gweithredu wedi'u gweithredu.
- 9 Yn benodol, canfu ein gwaith dilynol y canlynol:
- tan yn ddiweddar nid oedd gan y Bwrdd lechyd bolisi rhyddhau ar draws y sefydliad. Lansiwyd polisi newydd yn 2025 sy'n cwmpasu llawer o'r meysydd a godwyd gennym o'r blaen yn ogystal â sut y bydd perfformiad yn cael ei fonitro.
 - nid oes dull cyson o gynllunio rhyddhau o fewn y Bwrdd lechyd neu mewn partneriaeth â chydweithwyr awdurdodau lleol, er bod hyfforddiant bellach wedi'i gynllunio fel rhan o gyflwyno'r polisi rhyddhau newydd.
 - mae dull gweithredu anghyson o ran defnyddio lolfeydd rhyddhau a monitro cyfyngedig o'u heffaith i wella llif cleifion.
 - mae adrodd ar berfformiad wedi newid yn sylweddol yn unol â modelau a rhaglenni cenedlaethol newydd, ac mae trefniadau presennol y Bwrdd lechyd ar gyfer adrodd ar berfformiad yn gryf.
 - ers ein gwaith gwreiddiol mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithredu plattform digidol i helpu i reoli'r broses rhyddhau yn well, fodd bynnag, bu problemau gyda chywirdeb yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y plattform.
- 10 Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad yn nodi ein canfyddiadau dilynol yn fanylach ac mae **Atodiad 2** yn crynhoi ein hasesiad o gynnydd yn erbyn pob un o'r camau gweithredu a nodwyd yn ein hadroddiad ar gyfer 2017.

Argymhellion

- 11 Mae ein gwaith dilynol a'n hadroddiad rhanbarthol ehangach ar lif cleifion wedi nodi dau argymhelliad newydd ar gynllunio rhyddhau ar gyfer y Bwrdd lechyd, a lle bo'n berthnasol, ei bartneriaid awdurdodau lleol. Mae'r rhain wedi disodli'r argymhellion sy'n weddill o'n gwaith yn 2017 a ddangosir yn **Atodiad 2**.
- 12 Mae'r argymhelliad sy'n deillio'n benodol o'r gwaith dilynol hwn wedi'i nodi yn **Arddangosyn 1**. Mae ymateb y Bwrdd lechyd i'r argymhelliad hwn wedi'i nodi yn **Atodiad 3**.

Arddangosyn 1: argymhelliad newydd sy'n deillio o'r gwaith dilynol hwn

Argymhelliad

Gwella'r defnydd o lolfeydd rhyddhau

- A1 Er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o'i lolfeydd rhyddhau, dylai'r Bwrdd lechyd:
- 1.1. hyrwyddo'n weithredol y defnydd o lolfeydd rhyddhau yn ei broses gynllunio rhyddhau a'i hyfforddiant cysylltiedig;
 - 1.2. ymgymryd â gwaith i ddeall pam nad yw cleifion sy'n addas ar gyfer lolfeydd rhyddhau yn cael eu symud i'r lolfá rhyddhau;
 - 1.3. monitro'r defnydd o lolfeydd rhyddhau, gan gynnwys hyd yr amser y mae cleifion yn aros mewn lolfeydd rhyddhau.

Ffynhonnell yr arddangosyn: Archwilio Cymru

- 13 Mae'r argymhelliad sy'n deillio o'n gwaith rhanbarthol ehangach ar lif cleifion wedi'i nodi yn **Arddangosyn 2**. Mae ymateb y Bwrdd lechyd i'r argymhelliad hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad rhanbarthol.

Arddangosyn 2: argymhelliad sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad rhanbarthol ar gynllunio rhyddhau yn lle'r argymhellion blaenorol yn 2017

Argymhelliad rhanbarthol

Datblygu ac ymgorffori polisïau

- A5 Er mwyn ymgorffori dull cyson o gynllunio rhyddhau, dylai'r Bwrdd lechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i gyfleu'r canllawiau cynllunio rhyddhau newydd i'r holl staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio dros dro. Dylai'r gwaith o gyflwyno'r canllawiau gael ei gefnogi gan raglen barhaus o hyfforddiant gloywi a hyfforddiant cynefino ar gyfer staff newydd

Ffynhonnell yr arddangosyn: Archwilio Cymru

Adroddiad manwl

Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol

- 14 Gwnaethom ystyried cynnydd y Bwrdd lechyd wrth weithredu ein hargymhellion archwilio yn 2017. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:
- polisi rhyddhau a throsglwyddo gofal (Argymhellion 1 a 2 2017);
 - hyfforddiant cynllunio rhyddhau (Argymhellion 2017 3a, b, c, a d);
 - lolfar rhyddhau (Argymhellion 2017 4a, b, c, a d);
 - adrodd ar berfformiad (Argymhelliad 5 2017);
 - monitro perfformiad (Argymhelliad 6 2017).
- 15 Yn gyffredinol, canfuom fod **y Bwrdd lechyd wedi bod yn araf i fynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol gyda pholisi rhyddhau newydd a gymeradwywyd yn ddiweddar. Mae platform digidol newydd bellach ar waith, gydag adroddiadau perfformiad cryf ond mae bylchau yn parhau mewn hyfforddiant staff ac mae angen defnydd mwy cyson o lolfeydd rhyddhau ar draws y Bwrdd lechyd.**

Polisi Rhyddhau a Throsglwyddo Gofal

- 16 Gwnaethom ystyried y canlynol:
- wrth adolygu ei bolisi rhyddhau, a yw'r Bwrdd lechyd wedi cynnwys:
 - y daflen rhyddhau cleifion;
 - y llwybrau rhyddhau cleifion;
 - rhestr wirio rhyddhau;
 - cyfeiriad neu ddolenni gwe i'r polisi Dewis Cartref;
 - gweithdrefnau uwchgyfeirio arferol;
 - trefniadau ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau asesu meddygol/clinigol;
 - rolau a chyfrifoldebau staff ward (Argymhelliad 1 2017).
 - a oes gan y Bwrdd lechyd ddangosyddion clir ar gyfer monitro effaith ei bolisi rhyddhau cleifion, sy'n osgoi dyblygu (Argymhelliad 2 2017).
- 17 Canfuom nad **oedd gan y Bwrdd lechyd bolisi rhyddhau ar draws y sefydliad tan yn ddiweddar. Lansiwyd polisi newydd yn 2025 sy'n cwmpasu llawer o'r meysydd a godwyd gennym o'r blaen yn ogystal â sut y bydd perfformiad yn cael ei fonitro.**
- 18 Ymrwymodd y Bwrdd lechyd i adolygu ei bolisi rhyddhau yn ystod mis Mai 2018. Ni ddigwyddodd hyn ac o ganlyniad roedd gwahanol ddulliau gweithredu polisi yn cael eu defnyddio ar draws y Bwrdd lechyd. Roedd rhai safleoedd yn defnyddio polisi rhyddhau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn flaenorol ac roedd eraill yn datblygu polisi safonol. Yn dilyn adolygiad sicrwydd cyfyngedig Archwilio Mewnol o gynllunio rhyddhau yn 2024, datblygodd a chymeradwyodd y Bwrdd lechyd bolisi

sefydliad cyfan ym mis Ebrill 2025. Mae hyn yn adeiladu ar y canllawiau rhyddhau o'r ysbyty wedi'u diweddarau ac a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Medi 2024.

- 19 Mae polisi'r Bwrdd lechyd yn cwmpasu sawl agwedd ar yr arfer da a godwyd gennym yn ein hadolygiad yn 2017. Mae'r polisi bellach yn darparu arwyddion clir i bolisiau a gwybodaeth berthnasol eraill i gefnogi cynllunio rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth i gleifion, a'r polisi dewis cartref gofal. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi datblygu tudalen SharePoint Pecyn Cymorth Rhyddhau sy'n dod â'r holl wybodaeth berthnasol at ei gilydd mewn un lle, gan wella mynediad i staff. Ers hynny, mae llwybrau rhyddhau wedi'u diweddarau i adlewyrchu gweithrediad cenedlaethol y polisi Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA), a chyfeirir at y rhain yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u diweddarau. Mae rolau a chyfrifoldebau staff wardiau hefyd wedi'u nodi'n glir ym mholisi'r Bwrdd lechyd.
- 20 Er bod cyfeiriad at uwchgyfeirio, nid yw'r polisi yn nodi'n glir gweithdrefnau uwchgyfeirio er ei fod yn cyfeirio at brosesau llywodraethu ac uwchgyfeirio ar gyfer pecynnau gofal a rhyddhau o leoliadau aciwt wedi oedi mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd lechyd. Ar y cyfan, rydym o'r farn bod **argymhelliad 1 wedi'i weithredu'n sylweddol**, er bod angen i'r Bwrdd lechyd nodi trefniadau ar gyfer rhyddhau o'i adrannau brys a'i unedau asesu mewn iteriadau o'r polisi yn y dyfodol.
- 21 Mae polisi'r Bwrdd lechyd yn nodi'n glir mai cyfrifoldeb Rheolwyr Grŵp Gwasanaeth y System, yn y strwythur gweithredol newydd, yw monitro perfformiad sy'n gysylltiedig â rhyddhau, ac effaith y polisi rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys lleihau hyd arhosiad cyfartalog, 'oedi wrth drosglwyddo gofal', capasiti gwelyau a llif cleifion. Rydym o'r farn bod **argymhelliad 2 wedi'i weithredu**,

Hyfforddiant cynllunio rhyddhau cleifion

- 22 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd lechyd wedi:
- cynnwys hyfforddiant cynllunio rhyddhau cleifion mewn rhaglenni cynefino ar gyfer staff a fydd yn ymwneud â chynllunio rhyddhau cleifion (Argymhelliad 3a 2017);
 - cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd ar gynllunio rhyddhau (Argymhelliad 3b 2017);
 - archwilio cyfleoedd ar gyfer cynnwys y defnydd o'r Adnodd Cymorth Penderfynu mewn hyfforddiant cynllunio rhyddhau (Argymhelliad 3c 2017);
 - darparu canllawiau syml i staff nyrsio cronfeydd ac asiantaethau i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drefniadau cynllunio rhyddhau (Argymhelliad 3d 2017).
- 23 Canfuom **nad oes dull cyson o hyfforddiant cynllunio rhyddhau o fewn y Bwrdd lechyd neu mewn partneriaeth â chydweithwyr awdurdodau lleol, er bod hyfforddiant bellach wedi'i gynllunio fel rhan o gyflwyno'r polisi rhyddhau newydd.**

- 24 Canfu ein hadolygiad fod dull anghyson o ran hyfforddiant o fewn y Bwrdd Iechyd, a diffyg hyfforddiant ar y cyd â staff perthnasol y gwasanaethau cymdeithasol. Canfuom fod staff yn cydnabod bod gofynion hyfforddiant i bawb sy'n ymwneud â rhyddhau i ddeall y broses yn well, a rolau a chyfrifoldebau ym mhob cam. Er enghraifft, clywsom sut mae staff clinigol yn addo pecynnau gofal i rai cleifion nad ydynt efallai yn eu cael neu eu hangen. Mae hyn yn effeithio ar ddisgwyliadau cleifion a theuluoedd a all oedi'r broses o ryddhau cleifion. Ar ôl cymeradwyo polisi rhyddhau newydd y Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2025, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fwriadau i ddarparu hyfforddiant i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Felly, rydym o'r farn bod **camau parhaus i fynd i'r afael ag argymhellion 3a a 3b**. Fodd bynnag, rydym wedi argymhell yn ein hadolygiad rhanbarthol y dylai hyfforddiant hefyd gynnwys staff gwasanaethau cymdeithasol (**a ddisodlwyd gan Argymhelliad Rhanbarthol 2025 6**).
- 25 Canfu adolygiad sicrwydd rhesymol Archwilio Mewnol o drefniadau gofal iechyd parhaus yn 2023 fod y Bwrdd Iechyd wedi gwella'r defnydd o'r Adnodd Cymorth Penderfynu ar gyfer y broses ariannu gofal iechyd parhaus, gyda'r adnodd wedi'i gwblhau'n briodol ym mhob sampl o becynnau gofal gweithredol a adolygwyd. Mae polisi rhyddhau newydd y Bwrdd Iechyd yn cyfeirio at ei bolisi gweithredol gofal iechyd parhaus, y dylid ei gwmpasu fel rhan o'i hyfforddiant arfaethedig. Felly, rydym o'r farn bod **camau gweithredu parhaus i fynd i'r afael ag argymhelliad 3c (a ddisodlwyd gan Argymhelliad Rhanbarthol 2025 6)**.
- 26 Canfu ein hadolygiad fod y defnydd o staff nyrsio asiantaeth yn y Bwrdd Iechyd wedi gostwng yn sylweddol ers mis Awst 2024. Ym mis Mawrth 2025, roedd cost staffio nyrsio asiantaeth yn cyfrif am 1.9% o gyfanswm y bil cyflog nyrsio o'i gymharu â 6.9% ym mis Awst 2024. Fodd bynnag, mae'r defnydd o staff cronfeydd wedi cynyddu, gyda chost staffio nyrsys cronfeydd yn cyfrif am 6.5% o gyfanswm y bil nyrsio ym mis Mawrth 2025. Dylai hyfforddiant ar gyfer staff cronfeydd ac asiantaethau fod yn ystyriaeth allweddol o raglen gyfathrebu a hyfforddiant arfaethedig y Bwrdd Iechyd ar ôl cymeradwyo ei bolisi rhyddhau newydd. Felly, rydym o'r farn bod **camau gweithredu parhaus i fynd i'r afael ag argymhelliad 3d (a ddisodlwyd gan Argymhelliad Rhanbarthol 2025 6)**.

Lolfeydd rhyddhau

- 27 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:
- hyrwyddo'n weithredol y defnydd o lolfeydd rhyddhau (Argymhelliad 4a 2017);
 - sicrhau bod cleifion sy'n cael eu rhyddhau yn cael eu symud i lolfeydd rhyddhau cyn gynted ag y byddant yn agor (Argymhelliad 4b 2017);
 - canfod beth sy'n atal mwy o gleifion rhag cael eu symud i'r lolfeydd ar ddiwrnod rhyddhau (Argymhelliad 2017 4c);

- adolygu pa mor hir y mae cleifion yn aros mewn lolfeydd rhyddhau i sicrhau nad yw'r lolfeydd yn cael eu blocio gan gleifion sy'n aros i adael (Argymhelliad 4d 2017).

- 28 Canfuom fod **dull anghyson o ran defnyddio lolfeydd rhyddhau a monitro cyfyngedig o'u heffaith i wella llif cleifion.**
- 29 Canfu ein hadolygiad fod dull anghyson o ran defnyddio lolfeydd rhyddhau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae lolfeydd rhyddhau wedi'u lleoli yn Ysbytai Glangwili, Llwynhelyg a'r Tywysog Philip. Mae cydnabyddiaeth mewn adroddiadau diweddarau perfformiad bod lolfeydd rhyddhau yn gwella llif, ond nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Canfu ein hadolygiad hefyd dystiolaeth gyfyngedig bod gweithgarwch lolfeydd rhyddhau yn cael ei fesur a'i fonitro ar gyfer effaith. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd yn cael eu colli i wella llif cleifion a rhyddhau gwelyau. Felly, rydym o'r farn **nad oes unrhyw gamau wedi'u cymryd ar argymhellion 4a, 4b, 4c neu 4d (a ddisodlwyd gan Argymhelliad 1 2025).**

Adroddiad Perfformiad

- 30 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys crynodeb o effaith yr ymgyrch gofal heb ei drefnu yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig ym mis Mawrth 2018 (Argymhelliad 5 2017).
- 31 Canfuom fod **adrodd ar berfformiad wedi newid yn sylweddol yn unol â modelau a rhaglenni cenedlaethol newydd, ac mae trefniadau presennol y Bwrdd Iechyd ar gyfer adrodd ar berfformiad yn gryf.**
- 32 Ers ein hadolygiad gwreiddiol, bu sawl newid i'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys cyflwyno'r model Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) yn 2018 a chyflwyno'r Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (Rhaglen Chwe Nod) yn 2021. Mae'r ffordd y mae perfformiad yn cael ei fesur hefyd wedi newid i alinio â'r polisiau a'r rhaglenni cenedlaethol hyn.
- 33 Canfu ein hadolygiad diweddar fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau adrodd a monitro cadarn, wedi'u halinio â gofynion Rhaglen Chwe Nod Llywodraeth Cymru. Trawsnewid Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng oedd un o Amcanion Cynllunio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25, sy'n cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio. Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen Chwe Nod hefyd yn cael ei fonitro drwy fecanwaith Cyflawni Ansawdd, Cyllid a Pherfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd a sefydlwyd mewn ymateb i statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd. Mae monitro perfformiad rheolaidd o ddangosyddion gofal brys ac argyfwng hefyd yn cael ei gynnal fel rhan o'r Adroddiad Perfformiad a Sicrwydd Integredig a gyflwynir

i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad newydd¹. Felly, rydym o'r farn bod **argymhelliad 5 wedi'i ddisodli a gellir ei gau.**

Gwybodaeth rhyddhau cleifion

- 34 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd lechyd wedi asesu p'un a ellir defnyddio'r system weinyddu cleifion i gofnodi eitemau data ychwanegol, megis a yw rhyddhau yn syml neu'n gymhleth a'r dyddiad y mae claf yn 'addas yn feddygol' ar gyfer rhyddhau (Argymhelliad 6 2017).
- 35 Canfuom fod **y Bwrdd lechyd wedi gweithredu platfform digidol ers ein gwaith gwreiddiol i helpu i reoli'r broses ryddhau yn well, fodd bynnag, bu problemau gyda chywirdeb yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y platfform.**
- 36 Ers ein hadolygiad yn 2017, mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithredu 'Frontier', platfform rhyddhau digidol sy'n galluogi cofnodi manylion cleifion, gan gynnwys dyddiad rhyddhau disgwylidig. Mae rhyddhau syml a chymhleth bellach yn cael eu cofnodi trwy ddyrannu'r categori llwybr D2RA perthnasol. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad sicrwydd cyfyngedig Archwilio Mewnol o gynllunio rhyddhau yn 2024 fod gwybodaeth a gynhwysir yn y system Frontier yn aml yn anghyflawn ac yn anghywir. Canfu'r adolygiad nad oedd y llwybr D2RA perthnasol bob amser wedi'i neilltuo, neu ei fod yn anghywir ar y system, ac roedd y dyddiad rhyddhau disgwylidig weithiau ar goll. Ers hynny, mae'r Bwrdd lechyd wedi ymgymryd â gwaith i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y system Frontier yn gywir, gyda chydymffurfiaeth wedi'i adrodd ar lefel ward. Lle mae cydymffurfiaeth yn brin, darperir hyfforddiant ychwanegol i staff ward perthnasol. Felly, rydym o'r farn bod **argymhelliad 6 wedi'i weithredu.**

¹ Cyn 1 Ebrill, y Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol oedd â'r cyfrifoldeb am oruchwyllo a chraffu ar berfformiad

Atodiad 1

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Roedd y dulliau yn rhan o'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd i gyflwyno ein hadolygiad rhanbarthol ehangach.

Arddangosyn 3: dulliau archwilio

Elfen o ddulliau archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	Fe wnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys: • Papurau bwrdd a phwyllgor • Cynlluniau gweithredol a strategol sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng • Diweddariadau ar y rhaglen chwe nod a gofal brys ac argyfwng i bwyllgorau; • Gweithdrefn ryddhau
Cyfweliadau	Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol: • Prif Swyddog Gweithredu; • Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio; • Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Gofal Hirdymor; • Cyfarwyddwyr Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin; • Rheolwyr Cyffredinol Ysbytai Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg; • Rheolwr Rhaglen y Chwe Nod.
Arsylwadau	Gwnaethom arsylwi Nyrsys Cyswllt Rhyddhau yn Ysbytai Glangwili a Llwynhelyg.
Dadansoddi data	Gwnaethom ddadansoddi data StatsCymru. Gwnaethom hefyd ddadansoddi data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â'r holl gleifion meddygaeth frys a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad yn fwy na 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw).

Elfen o ddulliau archwilio	Disgrifiad
Hunanasesiad	Gofynnem i'r Bwrdd Iechyd gwblhau a chyflwyno hunanasesiad, gan nodi ei farn ar gynnydd yn erbyn ein hargymhellion ar gyfer 2017.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Atodiad 2

Crynodeb o'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion 2017

Mae **Arddangosyn 4** yn nodi'r argymhellion a wnaethom yn 2017 a'n crynodeb o gynnydd

Argymhellion	Cynnydd
Polisi Rhyddhau a Throsglwyddo Gofal A1 Mae ein hasesiad o bolisi'r Bwrdd Iechyd yn dangos y gellid ei gryfhau pan drefnir i'w adolygu a'i ddiweddarau nesaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys: • y daflen rhyddhau cleifion; • y llwybrau rhyddhau cleifion; • rhestr wirio rhyddhau; • cyfeiriad neu ddolenni gwe i'r polisi Dewis Cartref; • gweithdrefnau uwchgyfeirio arferol; • trefniadau ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau asesu meddygol/clinigol; • rolau a chyfrifoldebau staff ward.	gweithredwyd – gweler paragraffau 18 - 20
Polisi Rhyddhau a Throsglwyddo Gofal A2 Un o'r dangosyddion ar gyfer monitro effaith y polisi yw canran y cleifion sy'n cael eu rhyddhau cyn 11 am, tra bod llwyddiant y model llif cleifion SAFER yn cael ei asesu ar ryddhau 33% o gleifion o wardiau cleifion mewnol cyn hanner dydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd	gweithredwyd – gweler paragraff 21

Argymhellion	Cynnydd
egluro a oes angen i'r amserlen at ddibenion monitro fod yr un fath neu'n wahanol, ac os felly, sicrhau y gallu i fonitro dau ddangosydd ar wahân.	
Hyfforddiant cynllunio rhyddhau cleifion A3 Mae'r Polisi Rhyddhau a Throsglwyddo Gofal yn nodi y dylai pob aelod o staff rheng flaen gael mynediad at hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, nid oes hyfforddiant rheolaidd ar gynllunio rhyddhau cleifion ac mae ei gynnwys mewn rhaglenni cynefino yn anghyson, tra bod staff asiantaeth yn anghyfarwydd â'r broses rhyddhau. Yn y cyfamser, roedd nifer o staff yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant ar yr Adnodd Cymorth Penderfynu ar gyfer y broses ariannu gofal iechyd parhaus, a fyddai, yn ei dro, yn llywio trefniadau cynllunio rhyddhau. Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol: a) cynnwys hyfforddiant cynllunio rhyddhau mewn rhaglenni cynefino ar gyfer staff a fydd yn ymwneud â threfniadau rhyddhau; b) cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd ar gynllunio rhyddhau; c) archwilio cyfleoedd ar gyfer cynnwys defnyddio'r Adnodd Cymorth Penderfynu mewn hyfforddiant cynllunio rhyddhau; d) darparu canllawiau syml i staff nyrsio cronfeydd ac asiantaethau i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drefniadau cynllunio rhyddhau	parhaus – gweler paragraff 24 parhaus – gweler paragraff 24 parhaus – gweler paragraff 25 parhaus – gweler paragraff 26 (Wedi'i ddisodli ag Argymhelliad Rhanbarthol 2025 6)
Lolfeydd rhyddhau A4 Mae'n ymddangos bod lolfeydd rhyddhau yn cefnogi llai o gleifion nag y gellid ei ddisgwyl o ystyried eu capasiti cyffredinol a'u horiau gweithredu. Yn y cyfamser, mae rhai cleifion yn aros 12 awr neu fwy dros nos mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nes bod gwelyau ar gael. Dylai'r Bwrdd lechyd: a) hyrwyddo'n weithredol y defnydd o'r lolfeydd rhyddhau; b) sicrhau bod cleifion sy'n cael eu rhyddhau yn cael eu symud i'r lolfeydd rhyddhau cyn gynted ag y bydd yn agor;	dim camau gweithredu – gweler paragraff 28 dim camau gweithredu – gweler paragraff 28

Argymhellion	Cynnydd
c) canfod beth sy'n atal mwy o gleifion rhag cael eu symud i'r lolfâ ar ddiwrnod rhyddhau; d) coladu gwybodaeth am faint o amser y mae cleifion yn aros yn y lolfâ ryddhau cyn gadael yr ysbyty i asesu a yw trosiant araf yn atal cleifion rhag cael eu symud i'r lolfâ ar ddiwrnod eu rhyddhau	dim camau gweithredu – gweler paragraff 28 dim camau gweithredu – gweler paragraff 28 (Wedi ei ddisodli ag Argymhelliad 2025 1)
Adrodd am berfformiad A5 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lansio ei ymgyrch gofal heb ei drefnu yn ddiweddar. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys crynodeb o effaith yr ymgyrch yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig ym mis Mawrth 2018.	wedi'i ddisodli – gweler paragraffau 32 - 33
Gwybodaeth am ryddhau cleifion o'r ysbyty A6 Nid yw'r system gweinyddu cleifion yn cofnodi eitemau data a allai gefnogi monitro ac adrodd am gydymffurfiaeth â safonau a pholisïau rhyddhau. Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu a ellir defnyddio'r system weinyddu cleifion i gofnodi eitemau data ychwanegol, megis a yw rhyddhau yn syml neu'n gymhleth a'r dyddiad y mae claf yn 'addas yn feddygol' ar gyfer ryddhau.	gweithredwyd – gweler paragraff 36

Ffynhonnell yr arddangosyn: Archwilio Cymru

Atodiad 3

Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 5** yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio.

Arddangosyn 5: ymateb y rheolwyr

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1 Er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o'i lolfeydd rhyddhau, dylai'r Bwrdd Iechyd: 1.1. hyrwyddo'n weithredol y defnydd o lolfeydd rhyddhau yn ei broses gynllunio rhyddhau a'i hyfforddiant cysylltiedig; 1.2. ymgymryd â gwaith i ddeall pam nad yw cleifion sy'n addas ar gyfer lolfeydd	Ar hyn o bryd mae gennym lolfeydd rhyddhau gweithredol mewn tri o'n pedwar ysbyty aciwt. Ysbyty'r Tywysog Philip - Ar agor 8am – 6pm (Llun i Gwener) - Mae'r oriau agor yn Ysbyty'r Tywysog Philip wedi'u hystyngiwrn o 10am i 6pm yn dilyn yr argymhellion a nodir yn yr archwiliad hwn. Ysbyty Glangwili – Ar agor 8am – 6pm (Llun i Gwener) Ysbyty Llwynhelyg – Ar agor 9am – 6pm (Llun i Gwener) - Cynlluniau parhaus i ymestyn yr oriau agor o 8am yn unol â safleoedd Sir Gaerfyrddin. Ysbyty Bronglais – Dim darpariaeth gyfredol oherwydd y lle sydd ar gael. Yn dilyn cyfres o waith diogelwch tân wedi'i drefnu dros y misoedd nesaf, mae lleoliad wedi'i nodi ar gyfer ei ddefnyddio fel cyfleuster lolfeydd rhyddhau. Fel ateb dros dro, mae staff yn cael eu hannog i ddilyn protocolau lolfeydd rhyddhau trwy nodi mannau addas o fewn amgylchedd y ward lle mae cleifion sy'n gallu eistedd yn cael	Cwblhawyd	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio (Grŵp Gofal Clinigol Meddygaeth Gymunedol ac Integredig)

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
rhyddhau yn cael eu symud i'r lolfa ryddhau; 1.3. Monitro'r defnydd o lolfeydd rhyddhau, gan gynnwys hyd yr amser y mae cleifion yn aros mewn lolfeydd rhyddhau.	eu trosglwyddo o'r gwely ar fore'r rhyddhau tra bod y trefniadau terfynol a'r cludiant wedi'u cwblhau. Yn yr wythnos sy'n cychwyn 8 Medi 2025, rydym yn cynnal 'wythnos ailosod' gyda ffocws ar lif cleifion, prosesau a rhyddhau. Un elfen o'r ymarfer hwn yw canolbwyntio ar gynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd, gyda chymorth y defnydd o'n lolfeydd rhyddhau. Bydd y dull wedi'i dargedu yn ein galluogi i nodi a datblygu meini prawf ar gyfer cleifion sy'n addas i'w trosglwyddo i'r lolfa ryddhau ochr yn ochr â rhai o'r cyfyngiadau canfyddedig mewn perthynas â hyn. Yn hanesyddol, credwyd, er mwyn i glaf gael ei gludo i lolfa ryddhau bod yn rhaid i bob elfen o'r rhestr wirio rhyddhau fod yn gyflawn a bod y lolfa ryddhau yn ystafell ar gyfer aros am gludiant yn unig. Rydym wedi dechrau llawer iawn o hyfforddiant sy'n ymwneud â rhyddhau er mwyn dylanwadu'n ddiwylliannol a datblygu dealltwriaeth broffesiynol, atebolrwydd a pherchnogaeth. Yn benodol, mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu ochr yn ochr â Rhyddhau dan Arweiniad Meini Prawf. Mae ein canran hyfforddi ar hyn o bryd yn dangos cydymffurfiaeth isel yn y meysydd hyn; felly, y targed yw cyrraedd o leiaf 80% o fewn ein gweithlu nyrsys cofrestredig a gweithlu Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cydnabod bod gofyniad am adolygiad proffil cymhwysedd ar gyfer staff nyrsio sy'n gweithio yn ein lolfeydd rhyddhau i alluogi cleifion sydd angen ymyriadau clinigol terfynol i gael y rhain wedi'u cwblhau yn y lolfa ryddhau. Mae enghreifftiau o'r cymwyseddau hyn yn cynnwys gorchuddion a rhoi meddyginiaeth fewnwythiennol (IV).	Hydref 2025 Mawrth 2026 Rhagfyr 2025	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio (Grŵp Gofal Clinigol Meddygaeth Gymunedol ac Integredig) Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio (Grŵp Gofal Clinigol Meddygaeth Gymunedol ac Integredig) Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio (Grŵp Gofal Clinigol Meddygaeth Gymunedol ac Integredig) Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio (Grŵp

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	Mae ein tudalen SharePoint bellach yn cynnwys pecyn cymorth sy'n benodol briodol i ryddhau o'r ysbyty. Mae hwn yn cynnwys tudalen unigol sy'n cynnwys cyfres o wybodaeth am lolfeydd rhyddhau. Mae dogfennaeth berthnasol ar gael o'r ardal hon ac mae'n cynnwys ffurflenni fel dogfen trosglwyddo Sefyllfa, Cefndir, Asesiad Argymhelliad (SBAR) sydd â'r bwriad o hwyluso a chyflymu'r trosglwyddiad mewn ffordd ddiogel ac effeithlon. Mae canllaw trosglwyddo i ryddhau System Gweinyddu Cleifion (PAS) Cymru hefyd yn symleiddio'r broses ar gyfer diweddaru lleoliad y claf mewn dull amserol. Bydd defnyddio'r data hwn yn gydnaws â'n gwaith monitro parhaus o lolfeydd rhyddhau a faint o amser y mae cleifion yn aros ynddynt. Mae hyn eisoes wedi'i ymgorffori fel gofyniad i'r ward sy'n trosglwyddo, ond bydd monitro ac adolygu manylach yn sicrhau cydymffurfiaeth.	Hydref 2025	Gofal Clinigol Meddygaeth Gymunedol ac Integredig)



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas,

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.